# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 13/02/2024 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Alaw Llewelyn Roberts (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Caren Jones | Rhian Sanson | | | |

Mae'r aelodau yn mynegi pryder am un o aelodau Edern sef Gito Williams ac yn cynnig gyrru cerdyn i ddymuno gwellhad buan iddo.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Mared Llywelyn Williams, Rhys Llewelyn, Janice Evans, Carys Roberts a'r Clerc.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Rhian Sanson – eitem rhif 11 – cais am gyfraniad ariannol gan Cylch Meithrin a Mwy Nefyn.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 09/01/2024
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Baw Ci –** Arfon Hughes
     Derbyniwyd cwyn gan un o aelodau Nefyn fod baw ci ym mhob man ar hyd Llwybr Benrallt a Rhodfa'r Môr Nefyn.
     Penderfyniad: cysylltu hefo Alan Hughes i fynegi pryder a gofyn os oes modd gwneud rhywbeth am y peth.
   - **Rhandiroedd y Ddôl –** Clerc
     Derbyniwyd ebost yn dweud fod Emily Meilleur Uwch Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd yn awyddus i gyfarfod un o drigolion Nefyn yn y Rhandiroedd gyda'r bwriad o wneud arolwg o'r safle ac yn estyn gwahoddiad i aelodau CTN i fod yn bresennol.
     Penderfyniad: mae aelod lleol Nefyn am fynychu'r cyfarfod ond yn awyddus i newid yr amser i unrhyw bryd ar ôl 4yh.

5. **Sedd Wag –** Clerc
   Derbyniwyd un ymgeisydd ar gyfer y Sedd Wag yn Ward Nefyn.
   Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i dderbyn y cais.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

6. **Cynllun Gwaharddiadau Parcio Arfaethedig – B4417 wrth Cyffordd Bro Gwylwyr Nefyn –** Clerc
   Derbyniwyd ebost ynglŷn â'r uchod yn gofyn i'r Cyngor Tref drafod y mater yn eu cyfarfod nesaf a gyrru eu penderfyniad ar y cynnig i Cyngor Gwynedd.
   Penderfyniad: ar ôl trafod y pwyntiau ar y cynnig nid yw'r aelodau yn credu bod modd nac angen adolygu'r trefniadau parcio yn y man yma ac felly nid ydynt yn cytuno i symud y cynllun yn ei flaen.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

7. **Traeth Nefyn & Morfa Nefyn** – Arfon Hughes
Mae un o aelodau Nefyn eisiau tynnu sylw gweddill yr aelodau at erthygl diweddar yn y papurau am yr ymgynghoriad i benodi statws dŵr nofio glan i draeth Nefyn.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol bod CTN o blaid y statws yma i draeth Nefyn a bod pob un aelod yn llenwi'r ymgynghoriad i fewn yn unigol.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhian Sanson

8. **Pryder am Siop a Garej Morfa –** Catrin Roberts
Mae un o'r aelodau wedi tynnu sylw gweddill yr aelodau at Siop a Garej Morfa neu Siop Pitstop Morfa Nefyn a'r pryderon sydd gan y bobol leol â'r staff sydd yn gweithio yno ynglŷn â'r ffordd y mae'n cael ei rhedeg.
Penderfyniad: ysgrifennu at 'Penny Petroleum' i fynegi'r pryderon yma iddynt.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Gareth Jones

9. **Diffyg Swyddfa Bost yn Nefyn –** Alaw Llewelyn Roberts
Cafwyd diweddariad ar y mater a penderfynwyd gadael y mater i Liz Saville Roberts a Mabon ap Gwynfor.

10. **Gosod arwyddion CTN –** Clerc
Mae ychydig o arwyddion angen eu gosod o gwmpas yr ardal ac mae'r clerc angen rhywun i'w gosod ac ychydig o wybodaeth ynglŷn a lle mae angen iddynt gael eu gosod a pwy i gysylltu am ganaitad. Derbyniwyd y wybodaeth gan yr aelodau ac mae'r clerc am drefnu i roi'r arwyddion yn eu lle cyn gynted a phosibl.

11. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    - **Cais am gyfraniad ariannol – Cylch Meithrin Edern**
      Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf hefo'r ceisiadau am gyfraniad ariannol eraill.
      Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams
    - **Cais am gyfraniad ariannol – Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl –** (ail-gyflwyniad yn dilyn derbyn mwy o wybodaeth)
      Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £250.00 iddynt.
      Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts
    - **Cais am gyfraniad ariannol – Cylch Meithrin a Mwy Nefyn**
      Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf hefo'r ceisiadau am gyfraniad ariannol eraill.
      Cynnig: Arfon Hughes Eiliio: Gruffydd Williams

12. **Ceisiadau Cynllunio**
**C23/0117/42/LL –** Fferm Porthdinllaen, Lôn Goch, Edern – Cais llawn i godi adeilad cadw anifeiliaid newydd gyda storfa slyri tanddaearol.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £ 1310.30 (taliad BACS)
- Dragon Signs NW Ltd – arwyddion 'Ffordd ar Gau' a 'Maes Parcio yn Llawn' - £303.06
- Humphreys Signs Ltd – Arwydd Diffib Edern - £56.40
- Archwilio Cymru – gwaith archwilio ychwanegol yn 2017-2018 & 2018-2019 (rhoddir eglurhad yn y pwyllgor) - £2300.00
- Designer Signs – arwyddion mynwent Nefyn - £160.80
- Designer Signs – arwyddion Bryn Mynach - £79.20 (o gyfrif Bryn Mynach)
- John Gwynfor Jones – angladd Mr Griffith Jones a John Wynne Humphreys - £525.00
- Mared Llywelyn Williams – trydydd taliad y cadeirydd - £300.00
- D M Parry – pedwerydd taliad mynwent Edern, chweched taliad mynwent Morf Nefyn, ail daliad mynwent Fron ac ail daliad fynwent Penniel - £1055.00
- E.On Next – Trydan Llyfrgell mis Ionawr - £280.81
- HMRC – PAYE Mis 10 - £364.15
- Bacstal – gwasanaeth cyflogau - £157.20

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Gareth Jones

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- Sied DIY - Coeden Nadolig Morfa - £20.00
- Cyngor Gwynedd – Ad-daliad Llwybrau - £2757.62
- S. J. & S. Williams – Coeden Nadolig Edern - £290.00
- Dewi Thomas – angladd Idris Wyn Roberts - £1010.00
- Siop Pitstop – cyfraniad at coeden nadolig Morfa Nefyn - £35.00

Gofynnodd un o aelodau Edern am gael rhoi 'archebu blodau' ar agenda mis nesaf ac mae'r clerc wedi gwneud.


Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com